**Adroddiad i:** **Pwyllgor Craffu Perfformiad**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **10 Ionawr 2013**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** **Aelod Arweiniol dros Addysg/Pennaeth Addysg**

**Awdur yr Adroddiad:** **Pennaeth Addysg**

**Teitl:** **Y gweithredu ôl-arolygiad mewn ymateb i Arolygiad Estyn ar ansawdd Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol i blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych.**

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

1.1 Y cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn dilyn arolygiad 2012.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 I ddarparu gwybodaeth am, ac ystyried cynnydd hyd yma mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn dilyn arolygiad 2012.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor:

3.1 yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a sylwadau ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran ymdrin ag argymhellion Estyn; a

3.2 yn penderfynu a oes angen monitro hynt y cynllun gweithredu ymhellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae prif ganfyddiadau Adroddiad Estyn yn dangos bod yr Awdurdod Lleol wedi sicrhau 'Da' i'r tri chwestiwn allweddol:-

- Pa mor dda yw'r deilliannau?
- Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
- Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Barnwyd bod yr holl ddangosyddion eraill hefyd yn 'Dda', ac eithrio 3.1 'Arweinyddiaeth' a farnwyd i fod yn 'Ardderchog' (dylid cyfeirio at Atodiad 1 - Adroddiad Estyn).

4.2 Fodd bynnag, er mwyn gwella ymhellach, mae Estyn wedi argymell y canlynol:-

**Argymhelliad** 1: Gwella cywirdeb Asesiadau Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3; ac

**Argymhelliad 2**: Nodi'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i helpu'r Awdurdod a'i bartneriaid i wybod a yw'r rhain yn cynnig gwerth da am arian (dylid cyfeirio at Atodiad 2 – Adroddiad Estyn)

4.3 **Cynnydd yn erbyn Argymhelliad 1**

Gwnaed cynnydd yn erbyn yr holl weithredoedd a nodwyd dan yr argymhelliad hwn yng Nghynllun Gweithredu Ôl Estyn, ac eithrio 1.4. Y dyddiad cwblhau ar gyfer gweithredoedd ynghlwm ag 1.4 yw Gorffennaf 2014 (dylid cyfeirio at Atodiad 3 - Ffurflen Fonitro ac Atodiad 4 - Asesiadau Athro Cyfnod Allweddol 3, 2012).

**Cynnydd yn erbyn Argymhelliad 2**

Gwnaed cynnydd yn erbyn y gweithredoedd a nodwyd dan yr argymhelliad hwn (dylid cyfeirio at Atodiad 5).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gwella perfformiad ym maes addysg ac ansawdd adeiladau ysgol yn un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer tymor gwaith 2012-17. Wrth fonitro hynt y cynllun gweithredu sydd ynghlwm, mae'r Pwyllgor yn gallu cynorthwyo'r Cyngor i wireddu rhan o'r uchelgais uchod.

**6. Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd yr holl gostau sy'n codi yn cael eu cefnogi gan gyllidebau gwasanaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid sicrhau bod templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i lenwi ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.**

Pwrpas yr adroddiad yw adolygu ac ystyried cynnydd yn erbyn argymhellion. Felly, nid yw'r adroddiad yn chwilio am benderfyniad mewn ymateb i gynnig. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda Rhanddeiliaid Allweddol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn berthnasol.

## 10. Beth yw'r risgiau, ac a ellir gwneud unrhyw beth i'w lleihau?

10.1 Mae'r risgiau o ran enw da a gwleidyddiaeth i'r Awdurdod yn fach, gan fod deilliannau'r arolygiad yn dda. Fodd bynnag, os na chaiff yr argymhellion sylw, gallai hynny arwain at effaith negyddol ar ddeilliannau unrhyw arolygiadau i'r dyfodol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Dim gofynion cyfreithiol ond mae Arolygiadau Awdurdod Lleol yn orfodol.

11.2 Mae Erthygl 6.3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod rhwydd hynt i bwyllgorau craffu sicrhau bod gweithredoedd a nodir mewn cynlluniau gweithredu yn cael eu gwireddu.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Addysg
Ffôn: 01824 708009